| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **5 Tachwedd 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones, Dirprwy Swyddog Monitro.** |
| **Teitl:** | **Cylch Gorchwyl Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Ceisio barn yr aelodau ar drosglwyddo meysydd o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor hwn i Bwyllgor Safonau y Cyngor.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod llwyth gwaith y Pwyllgor yn cynyddu ac mai'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn yw creu trafodaeth a chael barn ar drosglwyddo meysydd y gellid o bosib ymdrin â nhw yn y Pwyllgor Safonau.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi arweiniad o ran y manylion a awgrymir yn yr adroddiad.

**4. Manylion yr Adroddiad.**

Ar hyn o bryd mae gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor 'awdurdod' i ymdrin â chydymffurfio monitro â'r Cod Ymddygiad i Aelodau, codi safonau moeseg a gonestrwydd, hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad a chwynion ynghylch aelodau a delio â chyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ; gan gynnwys chwarae rôl ym Mhrotocol Hunan Reoliadol y Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod oddeutu bob yn ail fis a chwblheir y cyfarfodydd o fewn 2 awr. Mae Aelodaeth y Pwyllgor Safonau yn cynnwys 2 Gynghorydd Sir, 4 aelod annibynnol sy'n cael eu recriwtio drwy hysbyseb cyhoeddus a 1 aelod o Gyngor Cymuned. Dim ond pan fydd y mwyafrif yn bresennol yn annibynnol y bydd y Pwyllgor yn gallu bod yn gworwm.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi ymestyn cylch gorchwyl eu Pwyllgorau Safonau i ymdrin â materion fel rhannu pryderon a chwynion i Ombwdsmon

Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch camweinyddu.

Mae cyfle felly i'r Cyngor ystyried cynyddu llwyth gwaith y Pwyllgor hwn a'i drosglwyddo i'r Pwyllgor Safonau.
Mae'r penderfyniad terfynol yn un ar gyfer y Cyngor Llawn a byddai'n cael ei ymgorffori yn yr adolygiad o'r Cyfansoddiad; fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn ceisio barn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i weld a oes dyhead am y dull hwn.

Mae trafodaethau rhwng Cadeiryddion y Pwyllgorau hyn yn ymddangos bod lle i ddadlau ar drosglwyddo rhai neu bob un o'r meysydd canlynol i'r Pwyllgor Safonau (yn ogystal â chadw ei gylch gwaith presennol): -

a) Rhannu Pryderon
b) Indemniadau ar gyfer Swyddogion ac Aelodau,
c) Cwynion gan gynnwys Cwynion i'r OGCC am y Cyngor (camweinyddu) gan aelodau o'r cyhoedd
d) Cwynion Comisiynydd Gwybodaeth ac adolygiad o weithgareddau'r Cyngor o dan y Ddeddfwriaeth Gwybodaeth (Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth)

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd arferion gwell yn cyfrannu at y flaenoriaeth o fod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau ar gyfer gwasanaethau gan y bydd yn dal yn ofynnol iddynt gyflwyno eu hadroddiadau i bwyllgor. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o gynnydd mewn costau presenoldeb i aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau gan fod angen iddynt eistedd am gyfnod hirach o bosib yn y Pwyllgor. Mae'r holl gostau eraill yn cael eu bodloni o dan adnoddau presennol.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Bu ymgynghori cychwynnol gyda Chadeiryddion y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Safonau. Cafodd y materion eu trafod yn sydyn yn y Pwyllgor Safonau ar 18 Gorffennaf, 2014 ac roedd diddordeb yn bodoli mewn ymgymryd â chylch gwaith ehangach.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid yw'n ofynnol ar hyn o bryd, ond bydd yn ofynnol os oes cynigion i drosglwyddo meysydd i bwyllgor arall.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Gall risgiau fodoli gyda dyblygu gwaith os bydd materion yn cael eu cymryd i'r ddau Bwyllgor.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen penderfyniad gan fod y penderfyniad terfynol ar y mater hwn yn un ar gyfer y Cyngor Llawn o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.